

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

94 Dental / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ebrill 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o 94 Dental, 94 Caerleon Road, Casnewydd, NP19 7BY, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 20 Ionawr 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod 94 Dental yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan drefniadau rheoli ac arwain da.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai gwelliannau er mwyn helpu'r practis i gydymffurfio â rheoliadau, safonau a chanllawiau arferion gorau cyfredol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yn glŷn â'u triniaeth
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân
- Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio
- Roedd mesurau rheoli heintiau addas ar waith mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hysbysu'r cleifion y gall dogfennaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill ac mewn fformatau hygyrch ar gais
- Mae angen i rai polisiâu gael eu diwygio er mwyn rhoi mwy o eglurder i'r cleifion a'r staff yn y practis

- Mae angen cael mwy o gyngor gan arbenigwyr proffesiynol mewn rhai meysydd er mwyn helpu i sicrhau bod y safle yn addas at y diben
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safon broffesiynol y cytunwyd arni.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae 94 Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau brif ddeintydd, dau hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol ddynodedig a dau reolwr, y mae un ohonynt hefyd yn nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan 94 Dental brosesau addas ar waith er mwyn helpu cleifion i gael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig am gynnal hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros.

Roedd gan y practis ddulliau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion a oedd yn cael eu defnyddio i fonitro ac asesu'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Gellid gwneud mwy i hysbysu cleifion bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.

Mae angen i wiriadau ar lafar o hanes meddygol a gynhelir ym mhob apwyntiad gyda'r cleifion gael eu dogfennu yn eu cofnodion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarparwyd gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth ardderchog a staff cyfeillgar. Wedi adfer fy ffydd mewn deintyddion gan fy mod i wedi cael profiad gwael flynnyddoedd yn ôl felly rwy'n falch fy mod i wedi dod yma"

"Mae'r staff bob amser yn addfwyn, gofalggar a phroffesiynol"

"Gwasanaeth gwych gan holl gyflogeion gofal iechyd y practis. Cyfeillgar, proffesiynol a chroesawgar. Byddwn yn ei argymhell yn fawr"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y brif ardal aros i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a sut i gynnal iechyd y geg da i blant ac oedolion.

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff drwy gydol yr arolygiad yn siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom fod desg y dderbynfa a'r brif ardal aros yn agos iawn at ei gilydd, ond cadarnhaodd y staff y byddai sgysiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell wag pe byddai angen. Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn helpu'r staff i gydnabod pwysigrwydd cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol ac yn disgrifio sut y dylid defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Wrth fynd o amgylch y practis gwelsom fod panel gwydr tryloyw ar y drws i'r ddeintyddfa a ddefnyddiwyd gan un o'r hylenywyr. Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu gweld cleifion yn cael triniaeth. Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig am hyn a gytunodd y byddai'r gwydr yn cael ei orchuddio â deunydd nad oedd yn dryloyw er mwyn cynnal urddas y cleifion yn ystod triniaethau. Cawsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad bod hwn wedi'i wneud.

Gwelsom fod copi o'r naw egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yn y brif ardal aros er mwyn hysbysu'r cleifion o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth am ffioedd i gleifion y GIG a rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd copïau o daflen wybodaeth y practis i gleifion ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Gwnaethom edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion a chopi o'r datganiad o ddiben² a gwelsom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod enwau a rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol y tîm deintyddol cyfan wedi'u harddangos y tu allan i'r adeilad ac roeddent yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Cadarnhaodd y practis y byddai'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y cleifion nad Saesneg yw eu mamiaith i'w helpu i ddeall pob agwedd ar eu gofal a'u triniaeth.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis wneud mwy i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigol ei gleifion drwy eu gwneud yn ymwybodol bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.

¹ Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

² Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael ac yn teimlo eu bod yn gallu dewis faint roeddent am fod yn rhan o'r penderfyniadau am eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r cleifion bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Dywedodd tua thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos y tu allan i'r brif fynedfa ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom gynlluniau triniaeth ar gyfer y cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau am yr opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Mae hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol³ cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt fod gwiriadau ar lafar o hanes meddygol yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad. Rhaid i bob deintydd sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol ar lafar yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion yn unol â gofynion canllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion.

Hawliau pobl

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb, urddas a hawliau dynol ar waith yn y practis, er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd gan y practis hefyd bolisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

O ran mynediad ffisegol, nid oedd gan y practis faes parcio, ond roedd lle i barcio gerllaw ar strydoedd preswyl lleol. Roedd ramp i'r drws ffrynt a desg y dderbynfa; roedd y brif ardal aros a thoiledau addas i gadeiriau olwyn ar gael ar y llawr gwaelod.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod dulliau ar waith i gasglu adborth gan gleifion am eu profiadau, a oedd yn helpu'r practis i fonitro ansawdd y gwasanaethau deintyddol cyffredinol roedd yn eu darparu. Roedd ffurflenni awgrymiadau ar gael wrth ddesg y dderbynfa ac roedd holiaduron yn cael eu rhoi i'r cleifion drwy gydol y flwyddyn. Dywedwyd wrthym fod adborth y cleifion yn cael ei ddadansoddi a'i drafod yn

³ Mae hanes meddygol claf yn helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf.

rheolaidd â'r staff mewn cyfarfodydd tîm, a chawsom enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed yn y practis o ganlyniad uniongyrchol i adborth y cleifion.

Roedd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder â'r practis am eu gofal wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Roedd polisi ar wahân ar gael ar gyfer ymdrin â chwynion hefyd er mwyn galluogi'r staff i ddelio ag unrhyw gwynion yn effeithiol ac yn amserol. Rydym yn argymhell y dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y weithdrefn gwyno a'r polisi ymdrin â chwynion er mwyn hysbysu'r cleifion sy'n derbyn triniaeth breifat y gallant gysylltu ag AGIC os na ellir datrys y mater. Yn yr un modd, rydym yn argymhell y dylai taflenni Gweithio i Wella fod ar gael yn y practis er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG y gallant gysylltu â'r bwrdd iechyd os na fyddant yn fodlon ar ganlyniad eu cwyn.

Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y weithdrefn gwyno a'r polisi ymdrin â chwynion.

Rhaid i'r practis drefnu bod taflenni Gweithio i Wella ar gael i'r cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

At ei gilydd, roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x yn ddiogel.

Roedd mesurau rheoli heintiau addas ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cael cyngor pellach gan arbenigwyr proffesiynol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben.

Mae angen gwneud mwy i gadw cofnodion cleifion yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau arferion gorau cyfredol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith er mwyn helpu i ddiogelu llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd pob ardal yn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith a bod asesiadau risg wedi'u cynnal yn flynyddol er mwyn helpu i nodi risgiau posibl i'r staff a'r cleifion a'u lliniaru. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn yr ystafell staff er

mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o wiriadau er mwyn sicrhau diogelwch tân, gan gynnwys profion goleuadau argyfwng ac ymarferion tân, wedi'u cynnal a'u cofnodi mewn cofnodlyfr. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom drafod â'r rheolwr cofrestredig a oedd angen gosod drysau tân mewnol i fyny'r grisiau, ac a oedd angen gosod byrddau tân o dan y grisiau. Argymhellwn y dylai'r practis gael cyngor proffesiynol ar y materion hyn gan arbenigwr diogelwch tân.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân ac roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos i atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁴.

Gwelsom fod asesiad risg clefyd y llengfilwyr wedi cael ei gynnal gan gwmni arbenigol. Nododd yr asesiad risg fod y tair uned ddeintyddol yn y practis yn defnyddio system dŵr potel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd un o'r unedau deintyddol yn defnyddio system dŵr potel a'i bod wedi'i chysylltu â dŵr o'r prif gyflenwad. Argymhellwn y dylai'r practis gael eglurder gan y cwmni arbenigol ynghylch y manylion anghywir hyn, a nodi beth y dylid ei wneud er mwyn diheintio'r llinell ddŵr a ddefnyddir gan yr uned ddeintyddol benodol honno'n briodol.

Roedd gan y practis bolisi cynllunio trychineb a pharhad busnes fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol. Gwelsom fod manylion cyswllt mewn argyfwng pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol ar yr hysbysfwrdd staff, a oedd yn enghraifft o arferion da.

Roedd y staff yn gallu newid mewn sawl ystafell y gellir ei chloi ym mhob rhan o'r practis er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd

⁴ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cyngor gan arbenigwr diogelwch tân ynghylch a oes angen gosod drysau tân mewnol i fyny'r grisiau ac a oes angen gosod byrddau tân o dan y grisiau.

Rhaid i'r practis gael eglurder gan y cwmni a gynhaliodd yr asesiad risg clefyd y llengfilwyr er mwyn nodi beth y dylid ei wneud i ddiheintio'r llinell ddŵr a ddefnyddir gan yr uned ddeintyddol o'r prif gyflenwad yn briodol.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd y broses ddihalogi yn cael ei chynnal ym mhob deintyddfa. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a gadarnhaodd nad yw'r broses ddihalogi yn digwydd pan fo claf yno er mwyn osgoi'r risg o amlygiad i dasgu neu wasgaru erisol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cynlluniau ar waith i adeiladu estyniad ar gyfer ystafell ddihalogi ar wahân, ac rydym yn cefnogi hynny.

Er bod lle yn brin ym mhob deintyddfa, nodwyd bod llwybrau dihalogi budr i lân wedi'u nodi a bod staff yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol ac yn defnyddio'r cyfarpar hwnnw yn ystod y broses er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Roedd gan y practis broses addas ar waith er mwyn sicrhau bod offer yn cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir. Roedd awtoclafau wedyn yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses sterileiddio awtomatig. Gwelsom fod y staff wedi bod yn cadw cofnodlyfr i ddogfennu'r gwiriadau dyddiol ac wythnosol a

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gwblhawyd er mwyn sicrhau bod yr awtoclafau yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Gwelsom fod y trefniadau hyn, ynghyd â mesurau rheoli heintiau eraill fel hylendid dwylo addas, wedi'u hamlinellu mewn polisi rheoli heintiau.

Yn ystod yr arolygiad, ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth i ni i ddangos bod ei weithwyr deintyddol proffesiynol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant y gellir ei ddilysu ar ddiheintio a dihalogi yn ystod eu cylch pum mlynedd blaenorol, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaethom hysbysu'r practis bod angen i'r dystiolaeth hon gael ei darparu i AGIC fel rhan o'i gynllun gwella a gwblhawyd yn Atodiad C.

Gwelsom fod gwastraff peryglus (clinigol) o'r deintyddfeydd yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath yn ddiogel.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbynol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod ei weithwyr deintyddol proffesiynol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant y gellir ei ddilysu ar ddihalogi a diheintio yn eu cylch pum mlynedd blaenorol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau a oedd yn nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd ar waith yn y practis mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Roedd gwiriadau

⁶ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod meddyginiaethau a'u siartiau llif cysylltiedig a oedd yn amlinellu'r camau i'w cymryd mewn argyfwng meddygol yn cael eu storio gyda'i gilydd mewn bagiau ar wahân, a oedd yn enghraifft o arferion da.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR). Roedd nifer o staff hefyd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw un yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arno yn briodol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁷, er mwyn helpu MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys siartiau llif a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd a'r asiantaethau y dylid cysylltu â nhw os bydd unrhyw faterion diogelu yn codi, a gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arferion da.

Yn ystod yr arolygiad cawsom sgwrs ag aelodau o'r staff ac roeddent yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Gwelsom fod pob aelod o'r staff naill ai wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn ddiweddar, neu wedi trefnu i wneud hynny yn fuan.

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Roedd pob aelod presennol o staff y practis wedi cael gwiriad clirio gan y ⁸ Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu'r gwasanaeth i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol sy'n nodi y dylai pob aelod o staff fod o gymeriad da ac yn addas i weithio mewn practis deintyddol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Mae'r practis yn defnyddio chwistrellau anaestetig lleol metel traddodiadol y gellir eu haildefnyddio. Argymhellwn y dylid cynnal asesiad risg o'r broses hon ac y dylid defnyddio dyfeisiau diogelwch priodol fel giardiaid nodwydd er mwyn lliniaru'r risg y ceir anaf damweiniol. Fel arall, gallai'r practis ddefnyddio chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anaf damweiniol.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol⁹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu.

⁸ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

⁹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

Er bod y rhan fwyaf o'r tîm deintyddol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio, nodwyd gennym fod dau aelod o staff wedi cael hyfforddiant o'r fath ddiwethaf yn ystod eu cylch datblygiad proffesiynol parhaus pum mlynedd blaenorol. Argymhellwn y dylai'r ddau aelod o staff gael eu pum awr o hyfforddiant y gellir ei ddilysu mewn radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd cyn gynted â phosibl yn eu cylch newydd, er mwyn helpu i fodloni gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IRMER) 2017 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 o ran addysg a hyfforddiant parhaus ym maes diogelu rhag ymbelydredd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnal archwiliad offer miniog ac asesiad risg i amlinellu'r ffordd y gall y practis ddiogelu staff rhag y risg o anaf damweiniol os yw'n parhau i ddefnyddio chwistrellau metel traddodiadol; fel arall, gallai'r practis sicrhau bod chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch ar gael i'r staff eu defnyddio.

Rhaid i ddau weithiwr deintyddol proffesiynol gwblhau eu pum awr o hyfforddiant y gellir ei ddilysu mewn radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd cyn gynted â phosibl yn eu cylch Datblygiad Proffesiynol Parhaus newydd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, ac yn parhau i'w cynnal, er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau o gydymffurfiaeth â chanllawiau arferion gorau dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael eu cynnal bob blwyddyn, ynghyd ag archwiliadau o ddelweddau radiograffeg, er mwyn helpu i sicrhau bod ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol (70% ardderchog, 20% derbyniol a dim mwy na 10% yn annerbyniol), ddwywaith y flwyddyn o leiaf.

Gwnaethom gynghori'r practis y dylai hefyd ystyried ymgymryd â gweithgareddau archwilio clinigol eraill, er enghraifft, archwiliadau o ragnodi gwrthfotigau, trefniadau integredig ar gyfer rhoi'r gorau i smygu er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod yr holl staff yn aml yn cydweithio i nodi meysydd i'w gwella yn y practis a gwnaethom argymhell y gallai'r practis hefyd ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹⁰ i wneud hyn mewn ffordd fwy ffurfiol.

Cadarnhaodd y practis nad yw'n gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis sawl polisi ar waith yn nodi gweithdrefnau i helpu i ddiogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn electronig a dywedwyd wrthym y gwneir copïau wrth gefn ohonynt yn rheolaidd er mwyn diogelu'r data gwreiddiol ac i sicrhau y gellir adfer y copïau gwreiddiol os byddai rhywbeth yn digwydd i'r systemau cyfrifiadurol.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod rhai rhannau o gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau proffesiynol. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol a ddylai gael eu dogfennu yng nghofnodion cleifion er mwyn hybu llesiant a diogelwch cleifion yn llawn:

- Cydsyniad llafar parhaus gan gleifion ar gyfer triniaeth ym mhob apwyntiad

¹⁰ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

- Mae angen i'r cyfiawnhad dros gyfnodau adalw fod yn gyson â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)¹¹ ac mae angen ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion
- Mae angen cofnodi tystiolaeth bod y driniaeth a roddir i'r cleifion yn gyson â'r canllawiau 'Delivering Better Oral Health'¹².
- Asesiadau risg anghenion clinigol a chanser y geg a gyflawnir ar gleifion
- Mae angen i'r cyfiawnhad dros gymryd radiograffau a chanfyddiadau clinigol dilynol gael eu cofnodi'n fanylach
- Nodi anghenion y tu mewn a'r tu allan i'r geg mewn archwiliadau o feinweoedd meddal a gyflawnir ar gleifion.

Rhaid i'r practis hefyd wella ei ddull o gydnabod atgyfeiriadau am driniaeth ddeintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion (gan gynnwys y rhai a argymhellir yn yr adroddiad hwn).

Rhaid i'r practis wella ei ddull o gydnabod atgyfeiriadau am driniaeth ddeintyddol.

¹¹ <https://www.nice.org.uk/guidance/cg19>

¹² [Delivering better oral health: an evidence-based toolkit for prevention](#)

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae 94 Dental yn bractis hirsefydledig a gwelsom dystiolaeth o drefniadau rheoli ac arwain da er mwyn helpu'r staff i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gallai'r staff achub ar gyfleoedd hyfforddi ac roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd angen gwella'r polisi chwythu'r chwiban rywfaint.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob un o'r polisiâu wedi cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Rydym yn argymhell y dylai system newydd gael ei rhoi ar waith er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi a gweithdrefn sydd ar waith yn y practis.

Cadarnhaodd pob un o'r rheolwyr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y rheoliadau o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os bydd claf yn cael anaf difrifol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau

cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Cynhelir cyfarfodydd practis yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod ac maent ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff glywed adborth am eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd DPP.

Roedd polisi recriwtio a dethol yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio aelodau parhaol newydd o'r staff ac roedd polisi sefydlu yn nodi'r broses i'w dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o'r staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis weithiau'n cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro drwy asiantaeth er mwyn sicrhau bod ganddo nifer priodol o staff wedi'u cymhwyso yn gweithio yn y practis drwy'r amser. Caiff y practis dystiolaeth gan yr asiantaeth bod y nyrsys deintyddol wedi'u cymhwyso, eu bod yn gymwys ac yn addas i weithio cyn dechrau gweithio yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Argymhellwn y dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC fel sefydliad y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: 94 Dental

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: 94 Dental

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis hysbysu'r cleifion bod dogfennaeth ar gael mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch ar gais.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.2	Rydym wedi gosod hysbysiad yn y dderbynfa ac mae hefyd gopi ar ein sioe sleidiau a chwaraeir drwy gydol y dydd ar ein teledu. Mae hyn er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion bod polisiau hefyd ar gael yn Gymraeg os dymunant hynny.	Dee Evans	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20	Er bod y clinigwyr bob amser yn edrych ar hanes meddygol y claf, nid oeddent bob amser yn cofnodi hynny. Rydym nawr yn sicrhau bod nodyn yn nodiadau'r claf yn	Laura Castaldi ac Ashish Gadhia	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Canllawiau'r Gyfadrn Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol	dweud bod hyn wedi digwydd yn ystod pob ymweliad.		
Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y weithdrefn gwyno a'r polisi ymdrin â chwynion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 21(4a)	Rydym wedi ychwanegu manylion cyswllt AGIC at ein Gweithdrefn Gwyno G110C ac Ymdrin â Chwynion G110.	Dee Evans	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis drefnu bod taflenni Gweithio i Wella ar gael i'r cleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 6.3	Mae'r taflenni hyn bellach ar gael i'n cleifion, yn y dderbynfa.	Dee Evans	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis gael cyngor gan arbenigwr diogelwch tân ynghylch a oes angen gosod drysau tân mewnol i fyny'r grisiau ac a oes angen gosod byrddau tân o dan y grisiau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13 Safonau Iechyd a Gofal 2015	Mae Elena Marino wedi bod mewn cysylltiad ag arbenigwr diogelwch tân ac mae wrthi'n trefnu iddo ymweld â'r practis cyn gynted â phosibl.	Elena Marino	Mis
Rhaid i'r practis gael eglurder gan y cwmni a	Safonau Iechyd a Gofal 2015	Roedd Elena wedi bod mewn	Elena Marino	Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gynhaliodd yr asesiad risg clefyd y llengfilwyr er mwyn nodi beth y dylid ei wneud i ddiheintio'r llinell ddŵr a ddefnyddir gan yr uned ddeintyddol o'r prif gyflenwad yn briodol.	Safon 2.1	cysylltiad â'r cwmni a gynhaliodd yr asesiad risg i ni ac rydym wrthi'n anfon sampl dŵr arall iddo fel bod modd newid yr adroddiad.		
Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod ei weithwyr deintyddol proffesiynol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant y gellir ei ddilysu ar ddihalogi a diheintio yn eu cylch pum mlynedd blaenorol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 17(1a) Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.4	Yn anffodus nid oes gennym y dystiolaeth i ategu hyn. Cynhaliwyd cwrs mewnol Diheintio a Dihalogi (Dentisan) ym mis Hydref 2018. Gwnaethom dybio y byddai'n ddigonol ar gyfer pob aelod o staff dros eu cylch pum mlynedd ond dim ond dwy awr o DPP y gwnaeth y cwrs ei roi i ni. Mae pob aelod o staff wedi cofrestru ar gyfer Isopharm, a ariennir gan y practis. Byddwn i gyd yn sicrhau ein bod yn cael pum awr o DPP ar gyfer pob cylch yn y dyfodol.	Dee Evans	Cynnydd yn y Dyfodol
Rhaid i'r practis gynnal archwiliad offer miniog ac asesiad risg i amlinellu'r ffordd y gall y practis ddiogelu staff rhag y risg o anaf damweiniol os yw'n parhau i ddefnyddio	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym yn cynnal archwiliadau ac asesiadau risg lechyd a Diogelwch blynyddol, sy'n cwmpasu offer miniog. Fodd	Dee Evans	Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
chwistrellau metel traddodiadol; fel arall, gallai'r practis sicrhau bod chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaesthetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch ar gael i'r staff eu defnyddio.	Rheoliad 17(1a) Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.9	bynag, nid ydym wedi cwblhau Archwiliad Offer Miniog penodol. Mae ar ein rhestr o bethau i'w gwneud y mis hwn.		
Rhaid i ddau weithiwr deintyddol proffesiynol gwblhau eu pum awr o hyfforddiant y gellir ei ddilysu mewn radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd cyn gynted â phosibl yn eu cylch Datblygiad Proffesiynol Parhaus newydd.		Mae'r ddau weithiwr deintyddol proffesiynol yn gweithio'n galed iawn i gwblhau hyn cyn gynted â phosibl.	Dee Evans	Mis
Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn llawn yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion (gan gynnwys y rhai a argymhellir yn yr adroddiad hwn).	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20 Canllawiau'r Gyfadrn Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol	Ers ein harolygiad, mae'r clinigwyr yn gweithio tuag at gyflawni canllawiau 'Delivering Better Oral Health'. Nid oeddent wedi dod ar eu traws cyn hyn. Bydd y practis hefyd yn cymryd rhan yng nghontract Diwygio GDS o 1 Ebrill 2020.	Laura Castaldi ac Ashish Gadhia	O 1 Ebrill 2020
Rhaid i'r practis wella ei ddull o gydnabod atgyfeiriadau am driniaeth ddeintyddol.		Rydym wedi cyflwyno llythyr cydnabod a byddwn yn ymateb i unrhyw atgyfeiriadau Mewnblannu yn y dyfodol gyda'n llythyr	Elena Marino	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cydnabod.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 17(3e)	Rydym wedi ychwanegu manylion cyswllt AGIC at ein Polisi Chwythu'r Chwiban.	Dee Evans	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dee Evans

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 16 Mawrth 2020